

2025 Rhif (Cy.)

2025 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Glanhafren, man i'r gogledd o
Aber-miwl a Dolfor, Powys) a
Chefnffordd yr A44 (Man i'r
gorllewin o Llangurig, Powys)
(Terfyn Cyflymder 30 mya Dros
Dro a Dim Goddiweddyd) 2025

The A483 Trunk Road (Glanhafren,
north of Abermule and Dolfor,
Powys) & the A44 Trunk Road
(West of Llangurig, Powys)
(Temporary 30 mph Speed Limit &
No Overtaking) Order 2025

Gwnaed

10 Mawrth 2025

Yn dod i rym

18 Mawrth 2025

Made

10 March 2025

Coming into force

18 March 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483 a chefnffordd yr A44, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd am fod perygl tebygol i'r cyhoedd.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 trunk road and the A44 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be restricted because of the likelihood of danger to the public.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Glanhafren, man i'r gogledd o Aber-miwl a Dolfor, Powys) a Chefnffordd yr A44 (Man i'r gorllewin o Llangurig, Powys) (Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Mawrth 2025.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Glanhafren, north of Abermule and Dolfor, Powys) & the A44 Trunk Road (West of Llangurig, Powys) (Temporary 30 mph Speed Limit & No Overtaking) Order 2025 and this Order comes into force on 18 March 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

Interpretation

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

- (a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984⁽¹⁾;
- (b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion a chefnffordd yr A44 y Drenewydd i Aberystwyth;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad a gwaharddiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 3 yn weithredol.

Cymhwys

5. Ni fydd y cyfyngiad na’r gwaharddiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means—

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984⁽¹⁾;
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester trunk road and the A44 Newtown to Aberystwyth trunk road.

Restriction and prohibition

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 30 miles per hour on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order during such times as the restriction referred to in article 3 is in operation.

Application

5. The restriction and prohibition in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Atal dros dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

10 Mawrth 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Suspension

6. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

10 March 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A483 ger Glanhafren, i'r gogledd o Aber-miwl sy'n ymestyn o bwynt 453 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r U2636 hyd at bwynt 426 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A483 i'r de o Ddolfor sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r fynedfa i'r eiddo o'r enw Caelydan hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 30 mya parhaol presennol ym mhen deheuol Dolfor.

Y darn o gefnffordd yr A44 sy'n ymestyn o bwynt 433 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r fynedfa i'r eiddo o'r enw Pengwaith, i'r gorllewin o Llangurig hyd at bwynt 641 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

SCHEDULE

The length of the A483 trunk road near Glanhafren, north of Abermule that extends from a point 453 metres south of its junction with the U2636 to a point 426 metres north of that junction.

The length of the A483 trunk road south of Dolfor that extends from a point 25 metres north-east of its junction with the access to the property known as Caelydan to the existing permanent 30 mph speed limit sign at the southern end of Dolfor.

The length of the A44 trunk road that extends from a point 433 metres east of its junction with the access to the property known as Pengwaith, west of Llangurig to a point 641 metres west of that junction.